

# ADRODDIAD FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

7fed Chwefror, 2022





















PROSIECT: Strategaeth Ddigidol Ysgolion Gwynedd

ARWEINYDD PROSIECT: Huw Ynyr

Adroddiad Cynnydd Strategaeth Digidol Ysgolion Gwynedd (Chwefror 2022)

## 1. Diweddariad:

- Yng nghyfarfod y Cabinet ar Dachwedd y 9fed 2022, fe gafwyd penderfyniadau ar y canlynol:
  - Cymeradwywyd y Strategaeth Ddigidol Addysg yn ei chyfanrwydd
  - Cytunwyd i gyd ariannu hyd at hanner costau adnewyddu'r dyfeisiadau drwy ymrwymo £2filiwn o falansau'r Cyngor, gyda disgwyliad i ysgolion dalu'r hanner arall
  - Cytunwyd i ysgolion Gwynedd dderbyn cefnogaeth dechnegol gan wasanaeth Technoleg Gwybodaeth yr Awdurdod o Ebrill 2022 ymlaen
  - Cytunwyd i ariannu £145mil er mwyn cynnig cefnogaeth dechnegol hyd at Ebrill 2022, er mwyn prysuro amserlen cyflwyno dyfeisiadau i'r ysgolion
- Parhau mae'r gwaith technegol o sefydlu'r gwasanaeth a gellir crynhoi'r ymdrechion diweddar fel a ganlyn.

 <b>5348</b> Chromebook wedi ei ffurfweddu a'u darparu i Ysgolion	 <b>1073</b> I-Pad wedi eu ffurfweddu a'u darparu i Ysgolion	 <b>312</b> Switch Rhwydwaith wedi eu gosod	 <b>1148</b> Access Point wedi eu gosod
 <b>1268</b> ffeil pst wedi eu mudo o gyfeiriadau e-bost athrawon i Hwb	 <b>101</b> domain newydd wedi eu creu a'u sefydlu ar gyfer safoni e-byst	 <b>100</b> ysgol wedi eu mudo i'w ffltro drwy PSBA Websafe	 <b>84</b> Safle SharePoint wedi eu creu ar gyfer Ysgolion Cynradd
 <b>Di-wifr</b> Cyhoeddus Ymwelwyr i pob Ysgol yng Ngwynedd	 <b>30</b> gweinyddwr newydd	 <b>14</b> UPS newydd	 <b>£300,000</b> Archebion tu allan i'r grant. Creu system archebu electroneg
 <b>Creu</b> Cyfarwyddiadur Mewnol newydd i Ysgolion	 <b>863</b> estyniad VoIP wedi eu trosglwyddo	 <b>Dechrau</b> safoni argraffu mewn ysgolion Gwynedd (Sefydlu server Papercut canolog)	 <b>14</b> Ysgol Uwchradd wedi newid NAT a chyfeiriadau rhwydwaith
 <b>Cynghori</b> Ysgolion ar systemau TCC newydd	 <b>2019</b> Trwydded Adobe Creative Cloud (eleni)	 <b>Consol</b> rheoli sgriniau rhyngweithiol <b>120</b> o sgriniau	 <b>Peilota</b> gwefan i Ysgol Rhosgadfan

## 2. Camau Nesaf:

- Byddwn yn cydweithio a Chwmni Cynnal ac yn herio'r farchnad gyflogaeth i lenwi'n strwythur cefnogi cyn gynted a bo hynny'n ymarferol bosib gyda'r bwriad o fod mewn sefyllfa i gefnogi'r ysgolion ar Ebrill 1af, 2022
- Byddwn yn parhau i gyflwyno'r strategaeth ddigidol gan gyflenwi gliniaduron i:
  - Athrawon
  - Disgyblion Uwchradd
- Byddwn yn agor trafodaethau gyda'r ysgolion uwchradd i wneud y gorau o'r adnoddau cefnogi sydd ar gael.

